Cymru
Cyflymydd
Cenedl Ddata

# Deallusrwydd Artiffisial a Moeseg Ddigidol Cymru

## Crynodeb

### Yr her

Gwella dealltwriaeth am natur deallusrwydd artiffisial a moeseg ddigidol, sut mae gwneud moeseg ddigidol ar waith, ac ystyried pa ddeallusrwydd artiffisial a moeseg ddigidol mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus i Gymru.

### Yr ymyrraeth/datrysiad

- Darparasom fan cychwyn ynghylch moeseg
- Dangosasom sut oedd gwneud moeseg ddigidol
- Gwnaethom asesu materion 'pynciau llosg' ar gyfer Cymru
- Gwnaethom gysylltu moeseg ddigidol Cymru gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Gwnaethom gymharu'r dadansoddiad hwn yn erbyn Nodau Datblygiad Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig
- Cynaliasom holiadur i breswylwyr Cymru a'r DU yn canolbwyntio ar agweddau ar foeseg ddigidol a gwasanaethau cyhoeddus (n=2073)

## Argymhellion

- Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel capten y llong ar gyfer moeseg ddigidol yng Nghymru.
- Cynnwys Nodau Datblygiad Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig fel elfennau craidd arferion a gwerthoedd arwain moeseg ddigidol Cymru.
- Defnyddio'r Egwyddor Ragofalus i arwain dulliau o lywodraethu technoleg.
- Defnyddio'r syniad o 'Lesiant Digidol' i gysylltu moeseg technoleg a llywodraethiant gyda sgwrs wleidyddol yng Nghymru.
- Defnyddio'r gangen Digidol a Data i ddod yn ffynhonnell allweddol o arbenigedd i fynd i'r afael â 'darn coll' Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan helpu Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Archwilydd Cyffredinol i ychwanegu ystyriaethau technoleg ddigidol i'w gweithgareddau datblygu llesiant.
- Datblygu dull cyffredinol i fynd i'r afael â'r cwestiynau arbennig a phenodol i dechnoleg y mae'r gangen Digidol a Data yn eu hateb.
- Defnyddio moeseg ddigidol i ystyried pwerau o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol y DU.

## Buddion

> **Rydym am i awdurdodau cyhoeddus allu manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod law yn llaw â thechnolegau digidol ac ar sail data i helpu i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus er budd pawb yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'r technolegau hyn yn codi heriau a chwestiynau moesol newydd ac anghyfarwydd, sy'n aml yn anodd eu hystyried yn briodol gydag adnoddau prin ac yn wyneb blaenoriaethau eraill. Bydd y prosiect hwn yn rhoi sylfaen i ni ddechrau meddwl a bod yn sail i'n sgyrsiau gyda'n partneriaid ledled Cymru a thu hwnt.**
>
> **Anna Bartlett-Avery, Digidol a Data, Llywodraeth Cymru**


**Awduron:**

Yr Athro Andrew McStay, Cyfarwyddwr Labordy Deallusrwydd Artiffisial Emosiynol, Prifysgol Bangor (e-bost: mcstay@bangor.ac.uk)

Dr. Gilad Rosner, Sylfaenydd IOT Privacy Forum


**Grŵp y prosiect**

THE EMOTIONAL AI LAB

Internet of Things Privacy Forum

Undeb Ewropeaidd European Union · Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund